Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyn i chi wneud cais am **Gredyd Cynhwysol**

Hawdd i'w Ddarllen



Ein cyfeirnod: **UC3ERW** 07/26

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

Tudalen 3




2 Beth sydd ei angen arnoch i wneud cais ar-lein

Tudalen 6



3 Cysylltwch â ni

Tudalen 12

# 1 Cyflwyniad

Adran Gwaith
a Phensiynau

Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal o'r Adran Gwaith a Phensiynau.




Mae'n helpu i dalu'ch costau bywyd bob dydd.

UC Credyd Cynhwysol

Efallai y gallwch gael Credyd Cynhwysol os:

- Ni allwch weithio
- Rydych chi allan o waith
- Rydych chi mewn gwaith ac mae gennych enillion isel.

Bydd y mwyafrif o geisiadau budd-dal newydd ar gyfer Credyd Cynhwysol.




Dylech wneud cais am Gredyd Cynhwysol ar-lein.

Ewch i: www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am **'Universal Credit'.**




Bydd y wybodaeth hon yn dweud wrthych **beth fydd ei angen arnoch** i wneud cais am Gredyd Cynhwysol.




Dylech **wirio yn gyntaf a allwch wneud cais** am Gredyd Cynhwysol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y canllaw Hawdd i'w Ddarllen – **'Pwy all wneud cais am Gredyd Cynhwysol'.**

I gael rhagor o wybodaeth Hawdd i'w Ddarllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am '**Easy Read Universal Credit**'.

# 2 Beth sydd ei angen arnoch i wneud cais ar-lein




Bydd angen y canlynol arnoch i wneud cais am Gredyd Cynhwysol:

- Manylion eich cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.

Dyma lle byddwn yn talu eich arian.




- Eich cyfeiriad ebost



- Mynediad i ffôn.



- Eich gwybodaeth tai.

Enghraifft o hyn yw faint o rent rydych yn ei dalu a phryd.



- Manylion eich **incwm neu enillion** ac unrhyw **gyfalaf** a allai fod gennych.

?

**Esboniad am enillion, cyfalaf ac incwm**

**Enillion** yw arian a gewch o fod mewn gwaith.

Gelwir arian o gynilion neu fuddsoddiadau yn **gyfalaf**.

Gallai **incwm** fod yn:

- Arian a gewch o fudd-daliadau
- Arian a gewch o bensiynau.



Os nad oes gennych y manylion hyn, gallwch:

- Ffonio llinell gymorth Credyd Cynhwysol
- Mynd i ganolfan gwaith neu
- Cysylltu â gwasanaeth Help i Hawlio Cyngor ar Bopeth.

## Gwybodaeth arall y mae'n rhaid i chi ei darparu pan fyddwch yn gwneud cais ar-lein




Bydd angen i chi ddweud wrthym os oes gennych unrhyw gynilion neu fuddsoddiadau.

Os ydych mewn cwpl, mae hyn yn golygu faint sydd gennych rhyngoch chi.



Dywedwch wrthym faint rydych yn ei dalu am ofal plant os ydych am gael cymorth gyda chostau gofal plant.




Pan fyddwch yn gwneud cais ar-lein, bydd yn rhaid i chi brofi pwy ydych.

Mae hyn yn golygu y gallwch brofi mai chi yw'r person yr ydych yn dweud.




Dyma rai enghreifftiau o ddogfennau a all brofi pwy ydych:

- Eich trwydded yrru
- Eich pasbort




- Eich cerdyn debyd neu gredyd cyfrif banc.



Os bydd angen unrhyw wybodaeth arall arnom, efallai y bydd angen i ni drefnu apwyntiad i chi gyda'r tîm Credyd Cynhwysol.




Gall hyn ddigwydd os:

- Maent angen mwy o wybodaeth amdanoch chi.




- Ni allwch brofi pwy ydych ar-lein.





Byddwch yn cael gwybod os bydd eich apwyntiad yn digwydd:

- Mewn canolfan gwaith neu
- Dros y ffôn.

# 3 Cysylltwch â ni





Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cysylltu â Chredyd Cynhwysol gan ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein.




Efallai bod gennych chi anabledd sy'n golygu na allwch ddefnyddio cyfrifiadur.




Os oes angen help arnoch ac na allwch gael mynediad i'n gwasanaeth ar-lein, cysylltwch â'r **llinell gymorth Credyd Cynhwysol.**



Mae’r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.



Ffôn: 0800 328 1744



Ffôn Saesneg: 0800 328 5644



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r Gwasanaeth Video Relay.



Os na allwch glywed na siarad ar y ffôn gallwch ddefnyddio Relay UK:

18001 yna 0800 328 5644

I gael mwy o wybodaeth am bwy i gysylltu â nhw, ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol

I gael mwy o wybodaeth am Gredyd Cynhwysol ewch i www.gov.uk/credyd-cynhwysol

Am fwy o wybodaeth hawdd i'w ddarllen am Gredyd Cynhwysol, ewch i www.gov.uk/cymraeg

Chwiliwch am '**Easy Read Universal Credit'.**